WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amcangyfrif 2016-17

# Amcangyfrif o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a Ddaw i Ben 31 Mawrth 2017

Paratowyd a gosodwyd ar y cyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Isobel Garner
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Rhagarweiniad

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi ar y cyd amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru a gosod yr amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.

Yn unol ag Adran 20 o'r ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau statudol.


Gall Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wneud unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif fel y gwêl yn dda, ond ni ellir gwneud unrhyw addasiadau heb wneud y canlynol:

- ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- ystyried unrhyw sylwadau y gall y naill neu'r llall eu gwneud.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn roi cynnig yn y Cynulliad Cenedlaethol o dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys awdurdodi'r adnoddau i'w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a'r taliadau i'w gwneud gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Amcangyfrif hwn yn nodi'r symiau i'w cynnwys mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru.

Am y tro cyntaf, mae Cynllun Ffioedd drafft, a baratowyd o dan Adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, wedi'i gynnwys i'w ystyried ar y cyd â'r Amcangyfrif.

## Nod ac amcanion Swyddfa Archwilio Cymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 5 |
| Effaith, cost a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru | 7 |
| Lleihau costau a sicrhau effeithlonrwydd o ran cost yn Swyddfa Archwilio Cymru | 11 |
| Sicrhau y cyflawnir gwaith archwilio o safon ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol | 13 |
| Buddsoddi TGCh a chyfalaf | 20 |
| Y weithdrefn ffioedd | 22 |
| Cynllun Ffioedd 2016-17 | 23 |
| Rhagolwg | 25 |
| Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2017 | 27 |
| Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru | 29 |
| Atodiad 2 – Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig | 31 |
| Atodiad 3 – Cynllun Ffioedd Drafft 2016-17 | 32 |

# Rhagair

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi paratoi'r Amcangyfrif hwn ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gan gyflawni ein cylch gorchwyl statudol i ddarparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol a sicrhau adnoddau ar gyfer ein rhaglen waith ein hunain.

Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau. Rydym yn ymwybodol iawn bod rôl hanfodol gwaith archwilio annibynnol yn bwysicach nag erioed pan fo adnoddau'n brin a bod gwneud penderfyniadau cadarn yn fwyfwy hanfodol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Dengys yr Amcangyfrif hwn fod y Bwrdd yn benderfynol o sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad atebol a reolir yn dda. Er gwaetha'r pwysau sylweddol o ran cost a wynebwn y flwyddyn nesaf, drwy flaengynllunio a chanolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gallwn rewi cyfraddau ffioedd ein staff archwilio. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gwneud dros £1 filiwn o arbedion, gan gyfyngu ein costau fel eu bod yn llai nag un rhan o bump o geiniog o bob punt a archwilir.

Mae ein Hamcangyfrif, fel y'i cymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn dibynnu'n uniongyrchol ar y cyfraddau ffioedd a bennir gennym. Mae'r ddogfen hon, am y tro cyntaf, yn cynnwys Cynllun Ffioedd Drafft fel y gall y Pwyllgor Cyllid ei ystyried ochr yn ochr â'r Amcangyfrif. Mae'r cyfraddau ffioedd a'r graddfeydd ffioedd a gynhwysir yn y ddogfen hon wedi bod yn destun ymgynghoriad â chyrff llywodraeth leol, fel sy'n statudol ofynnol, yn ogystal â'r holl gyrff eraill a archwilir. Credwn fod hyn yn bwysig er mwyn gwella tryloywder.

Ar y cyfan, dengys yr adborth i'r ymgynghoriad fod cyrff a archwilir yn croesawu'r dulliau mwy tryloyw o gyfrifo ffioedd a'r cynnig i barhau i rewi ein cyfraddau ffioedd. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sy'n wynebu cyrff a archwilir a'r angen i'n gwaith archwilio barhau i ychwanegu gwerth yn ogystal â rhoi sicrwydd ynglŷn â llywodraethu a'r defnydd a wneir o arian cyhoeddus. Mae'r adborth i'r ymgynghoriad yn tanlinellu'r angen parhaus i ni symleiddio ein dulliau archwilio a sicrhau bod gennym y cymysgedd sgiliau cywir i wneud gwaith o ansawdd a chael yr effaith fwyaf bosibl er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i newid a gwella. Yn yr Amcangyfrif hwn, nodwn y rhan rydym yn ei chwarae yn y cyfnod hwn o gyni cyllidol.

Ochr yn ochr â'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd, mae ein Cynllun Busnes gan gynnwys y Cynllun Blynyddol. Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi ein blaenoriaethau allweddol, ein hamcanion a'n mesurau perfformiad ar gyfer y flwyddyn, gan roi darlun llawnach o'r defnydd a wnawn o'r adnoddau a gaiff eu sicrhau drwy'r Amcangyfrif. Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015-16 yn cynnwys blaenflaenoriaethau ar gyfer 2016-17, a gaiff eu cyflawni drwy'r Amcangyfrif hwn a cheir rhagor o fanylion amdanynt yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17, a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Wrth i ni gyflwyno'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd Drafft hyn i'w hystyried, pwysleisiwn ein bod yn benderfynol o sicrhau y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn chwarae ei rhan yn y cyni cyllidol ac yn parhau i helpu cyrff cyhoeddus i newid a gwella yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Isobel Garner
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**


# Effaith, cost a chyllid Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae archwiliadau annibynnol o arian cyhoeddus yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Mae'n rhaid i'r cyhoedd gael digon o wybodaeth am weithgareddau cyrff cyhoeddus a sut maent yn defnyddio arian cyhoeddus. Ac mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall sut i wella canlyniadau a llwyddo. Mae angen i'r cyhoedd allu cael gafael ar wybodaeth sy'n amserol, yn ddiduedd, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir. Yn y cyfnod anodd hwn, pan fo'r pwysau a'r risgiau yn llawer mwy sylweddol, ond pan geir cyfleoedd hefyd, mae gwaith archwilio yn chwarae rôl bwysicach fyth.

2 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiadau ar gyfrifon mwy nag 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru; yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r 28 o awdurdodau gwella llywodraeth leol ac asesiadau strwythuredig o bob un o 10 corff y GIG. Mae'n cyhoeddi tua 15 o adroddiadau cenedlaethol bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian a'r defnydd cywir o arian cyhoeddus, ac yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £2.5 biliwn. Y gwaith hwn sy'n darparu'r cwantwm ar gyfer adennill costau Swyddfa Archwilio Cymru, drwy'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, grant ar gyfer gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, ynghyd â chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Gwariant


### Arddangosyn 1: Amcangyfrif o dreuliau 2016-17



3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol yr adnoddau sydd eu hangen arno i wneud ei waith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'n costau yn ymwneud â'r 272 o staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gennym, ein contractwyr, darparu gwasanaethau ledled Cymru a darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol i gyflawni ein gwaith. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

4 Ers 2009-10, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 21.5 y cant mewn termau real[1], fel y dangosir yn Arddangosyn 2. Mae'r arbediad cronnol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny (yr ardal wedi'i lliwio yn Arddangosyn 2) yn cyfateb i fwy na £41 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd archwilio.


Arddangosyn 2: Gwariant rhwng 2009-10 a 2016-17




1 Ar sail datchwyddwyr CMC a gyhoeddwyd gan SYG ym mis Mehefin 2015


## Cyllid

Arddangosyn 3: Cyllid amcangyfrifedig 2016-17




5 Yn gyffredinol, caiff 71 y cant o wariant Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Daw'r 29 y cant arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, fel y dengys Arddangosyn 3. Mae hyn yn debyg i Audit Scotland a gafodd 74 y cant o'i incwm o ffioedd yn 2014-15. Mae rhagor o fanylion am ein hincwm a'n gwariant ar gael yn Atodiad 1.

Arddangosyn 4: Gostyngiad mewn termau real mewn incwm o ffioedd rhwng 2009-10 a 2016-17




6 Dengys Arddangosyn 4 y duedd yn ein hincwm blynyddol o ffioedd o 2009-10 i'n sefyllfa amcangyfrifedig ar gyfer 2016-17 a gwelir gostyngiad o 26.8 y cant yn ein hincwm o ffioedd dros y cyfnod.

# Lleihau costau a sicrhau effeithlonrwydd o ran cost yn Swyddfa Archwilio Cymru

7 Ers 2009-10, rydym wedi lleihau ein costau gweithredu fwy na 21 y cant mewn termau real. Yn 2016-17, rydym yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau, fel y nodir yn Arddangosyn 5:

Arddangosyn 5: Pwysau sylweddol o ran costau yn 2016-17

| | £'000 |
|---|---|
| Cost y polisi o roi codiad cyflog o un y cant i'r sector cyhoeddus ynghyd â chodiadau cyflog cytundebol | 460 |
| Cost codiadau chwyddiannol mewn meysydd eraill gan gynnwys costau ynni uwch ac ardrethi busnes uwch ar gyfer ein safleoedd a chynllunio'r gweithlu. | 350 |
| Cost codiadau statudol yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr | 190 |
| **CYFANSWM** | **1,000** |

8 Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru ei hun yn sefydliad atebol a reolir yn dda sy'n dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o'r safon uchaf a bod ein gwaith yn cynnig gwerth da am arian. Mae cost-effeithlonrwydd yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Gan adeiladu ar arbedion a sicrhawyd mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn gwneud gwaith blaengynllunio a fydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion ychwanegol ar gyfer 2016-17. Golyga hyn y gallwn ariannu'r pwysau sylweddol a nodir uchod heb effeithio ar gyfraddau ffioedd na chynyddu'r arian rydym yn ei hawlio o Gronfa Gyfunol Cymru (ac eithrio ar gyfer gweithgareddau ychwanegol y cytunir arnynt). Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn cynhyrchu'r arbedion a nodir yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: Arbedion a nodwyd ar gyfer 2016-17

| | £'000 |
|---|---|
| Arbedion caffael o drefniadau contractio diwygiedig â chwmnïau archwilio | 640 |
| Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd a rheoli swyddi gwag | 220 |
| Gostyngiadau mewn costau rheoli a gweinyddu | 140 |
| **CYFANSWM** | **1,000** |

9 Er mwyn sicrhau'r model archwilio mwyaf cost-effeithiol, mae'r camau a gymerwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn golygu y byddwn yn cyfyngu ein costau gweithredu drwy wneud mwy o waith archwilio mewnol, gan roi llai o waith ar gontract i gwmnïau archwilio. Yn sgil hyn, byddwn yn gwario £0.6 miliwn yn llai ar sail gyfatebol y flwyddyn nesaf am gwantwm o waith archwilio a gaiff ei roi ar gontract ar hyn o bryd.

10 Drwy barhau i symleiddio ein strwythurau, ein prosesau a'r gwasanaethau a ddarperir gan ein canolfan gorfforaethol, disgwylir y bydd ein gorbenion £1.1 miliwn (14 y cant) yn is na'r gwariant cyfatebol yn 2013-14. Rydym wedi ailstrwythuro, wedi rhoi ein gwasanaethau cyflogres ac archwilio mewnol ar gontract, ac rydym wrthi'n cynnal adolygiad sylfaenol o'n prosesau busnes allweddol gyda'r nod o ganfod rhagor o gyfleoedd i wella gwerth am arian.

# Sicrhau y cyflawnir gwaith archwilio o safon ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol

11 Rydym yn darparu staff medrus iawn i gyflawni tua 90 y cant o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, a ategir gan 10 y cant arall o adnoddau archwilio a ddarperir o dan gontract gan gontractwyr arbenigol a chwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat. Dyma ddyfnder yr arbenigedd sy'n cyflwyno adroddiadau ar gyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru; yn cynnal asesiadau gwella blynyddol ac asesiadau strwythuredig, yn llunio adroddiadau cenedlaethol ac yn ardystio ceisiadau am grantiau gwerth £2.5 biliwn. Mae prif weithgareddau gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol i'w gweld yn Atodiad 2.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

12 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny a pharatoi adroddiad blynyddol ar eu cynnydd. Mae'n ofynnol hefyd i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau o'r graddau y mae'r cyrff cyhoeddus hynny yn pennu amcanion ac yn cymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

13 Cytunwyd ar gyllid o £122,000 y flwyddyn yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2014-15 ar gyfer gwaith datblygu a oedd yn gysylltiedig â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol fel yr oedd ar y pryd. Mae'r gwaith datblygu hwn yn parhau yn 2016-17 wrth i ni geisio gweithio gyda chyrff a archwilir a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu a threialu'r dulliau archwilio sydd eu hangen i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ceisio cyllid sefydlu ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru, a fydd yn cynyddu cyfanswm y cyllid i £422,000 yn 2016-17 fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Wrth i ni gadarnhau ein dulliau archwilio ac ymateb i waith ymgynghori Llywodraeth Cymru sy'n dal i fynd rhagddo, byddwn yn siarad â chyrff a archwilir am y goblygiadau i'w ffioedd o 2017-18 ymlaen ac yn ystyried modelau cyllido eraill â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol nesaf.

14 Rydym hefyd wedi annog Llywodraeth Cymru i ailystyried y gofynion archwilio ar gyfer Llywodraeth Leol o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi tystiolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol y gallai leihau'r gofynion asesu sylweddol sydd arno o dan y Mesur gan gyflwyno, yn eu lle, ofynion symlach ar gyfer cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau sydd wedi'u hintegreiddio â deddfwriaeth arall, arwain at leihau costau i Awdurdodau Lleol ac archwilwyr, gan sicrhau y caiff adnoddau prin eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Ein safbwynt cyhoeddedig ar gyfer Llywodraeth Leol yw y dylai'r ffioedd ychwanegol y mae'n rhaid eu codi am waith sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn ffioedd yn sgil diddymu neu ddiwygio'r Mesur. Mae ymatebion gan gyrff Llywodraeth Leol i'r ymgynghoriad ar ffioedd wedi atgyfnerthu'r farn hon.

15 Yn achos cyrff iechyd, byddwn yn ceisio addasu ein gwaith archwilio presennol i fodloni'r gofynion newydd er mwyn cyfyngu unrhyw gynnydd mewn ffioedd.

16 Yn achos cyrff llywodraeth ganolog, mae dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf yn galw am fwy o waith archwilio o gymharu â'r llwyth gwaith presennol, a fydd yn arwain at godi ffioedd ychwanegol. Mae'r adborth i'r ymgynghoriad ar ffioedd yn dangos y bydd cyrff llai o faint a noddir gan Lywodraeth Cymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r costau ychwanegol oni cheir arian ychwanegol.

17 **Er mwyn treialu ein gwaith archwilio yn ôl y bwriad, rydym yn ceisio cyllid ychwanegol un-tro o £300,000 o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2016-17.**

## Hyrwyddo datblygiad hyfforddeion cyfrifyddu

18 Mae cydnabyddiaeth gynyddol y bu tanfuddsoddi sylweddol yn natblygiad gweithwyr cyllid proffesiynol y dyfodol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a hynny, yn bennaf, oherwydd cyni cyllidol. Yn ddiweddar, mae Adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyfeirio at ddiffyg capasiti a gallu ariannol mewn llawer o'r cyrff a archwilir ganddo.

19 Rydym yn anelu at gynyddu nifer yr hyfforddeion rydym yn eu recriwtio bob blwyddyn. Er mwyn recriwtio mewn marchnad am y graddedigion gorau ochr yn ochr â chwmnïau cyfrifyddu rhyngwladol, mae angen i ni gynnig cynllun hyfforddi deniadol a chystadleuol. Drwy wneud hynny, rydym yn bwriadu sefydlu rhaglen secondiadau cydweithredol lle byddai ein hyfforddeion yn treulio amser yn gweithio yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

20 Un o fanteision sylweddol posibl y rhaglen hon yw y bydd yn darparu cronfa o weithwyr ariannol proffesiynol cymwys iawn y gall cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru eu cyflogi maes o law, y mae llawer ohonynt yn wynebu heriau ariannol sylweddol ynghyd â phrinder sgiliau rheoli ariannol sydd, yn eu tro, yn eu rhwystro rhag cynllunio olyniaeth yn effeithiol. Un o'r manteision eraill yw y bydd yn darparu cyfleoedd swyddi i raddedigion, sy'n cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gyfrannu at y nodau llesiant o greu Cymru lewyrchus sy'n fwy cyfartal.

21 Y bwriad yw cyllido cyfnodau secondiad yr hyfforddeion drwy adnoddau Cronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd. Mae nifer o bartneriaid posibl o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi mynegi cryn ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni ar y cynllun hwn. Rydym yn awyddus i ysgogi'r diddordeb hwn, gan ein galluogi i ystyried cyfranogiad a chyfleoedd i rannu costau yn y dyfodol ymhellach. Bydd y cyllid hwn yn ychwanegol at y cyllid presennol o £320,000 sy'n talu costau amser astudio a ffioedd cymwysterau proffesiynol.

22 **I gefnogi'r cynllun secondiadau dan hyfforddiant, rydym yn ceisio cyllid ychwanegol o £132,000 o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2016-17.**

## Trawsnewid strategol ac archwilio mewn cyfnod o gyni cyllidol

23 Wrth archwilio mewn cyfnod o gyni cyllidol, cydnabyddwn fod angen ailfodelu ein gwaith archwilio. Rydym wedi adolygu ein cymysgedd sgiliau ar gyfer archwiliadau ariannol gan ddefnyddio gwybodaeth feincnodi gan gwmnïau preifat a chyrff archwilio eraill. Drwy gyflogi mwy o hyfforddeion archwilio, nid oes cymaint o angen i ni ddefnyddio archwilwyr sydd wedi cymhwyso'n llawn i wneud y gwaith archwilio mwy arferol, ac mae hyn yn helpu i gyfyngu cost archwilio yn y tymor hwy.

24 Mae disgwyl i ddatblygiadau mewn technoleg gyfrifiadurol a phŵer cyfrifiadura, ynghyd â chostau storio a phrosesu llawer is, drawsnewid natur llawer o'n gwaith archwilio gweithredol dros y pum i ddeng mlynedd nesaf. Mae'n rhaid i'r archwiliadau blynyddol traddodiadol o ddatganiadau ariannol ddatblygu er mwyn cyd-fynd â'r cynnydd cyflym hwn yn y wybodaeth sydd ar gael. Yn yr un modd â chyrff archwilio cyhoeddus eraill y DU, rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o fanteisio ar ddatblygiadau yn y maes cyfnewidiol hwn.

25 Mae ein dau faes busnes gweithredol, sef Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad, hefyd yn ceisio cysoni cylchoedd archwilio ac adroddiadau yn well ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol a archwilir. Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio defnyddio model sydd eisoes wedi'i fabwysiadu ac sy'n gweithio'n dda ar gyfer cyrff y GIG. Rydym yn parhau i alw am ddiddymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, er mwyn ein galluogi i gynnig profiad archwilio symlach a mwy effeithiol i gyrff a archwilir ynghyd â chyfleoedd i lunio adroddiadau Cymru gyfan ar faterion o bwys cenedlaethol.

26 Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu effaith gwaith ardystio grantiau drwy symleiddio'r gofynion ar yr Archwilydd Cyffredinol. Rydym wedi cytuno, mewn egwyddor, ar fodel sy'n canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch a ariennir gan grantiau, gan ymbellhau wrth y dull traddodiadol o archwilio anfonebau. Dylai hyn roi dealltwriaeth gliriach i Lywodraeth Cymru a chyrff a archwilir o'r gwahaniaeth y mae gweithgarwch a ariennir gan grantiau yn ei wneud, yn ogystal â lleihau cost gwaith ardystio grantiau.

27 Ynghyd â'n partneriaid yn Arolygu Cymru, sef AGGCC, AGIC ac Estyn, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Crerar yn yr Alban o ddefnyddio cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio mewn ffordd gydlynol. Rydym yn ymrwymedig i rannu ein gwybodaeth a'n profiadau ein hunain fel bod ein priod weithgareddau adolygu yn cael yr effaith orau, a chynyddu effaith ein hadnoddau cyfunol i'r eithaf.

28 **Rydym yn bwriadu ailflaenoriaethu £100,000 o gyllid presennol Cronfa Gyfunol Cymru er mwyn darparu capasiti ac arbenigedd i ddatblygu opsiynau i ailalinio ein gwaith yn strategol (Paragraff 37).**

## Awudurdod Cyllid Cymru

29 Mae'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) drafft sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio a llunio adroddiad ar gyfrifon blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru a'r Datganiad Treth ar wahân a gosod copi o'r dogfennau ardystiedig a'r adroddiad a luniwyd arnynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae darpariaeth y Bil ar gyfer archwilio Awdurdod Cyllid Cymru yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i godi ffi am y gwaith archwilio hwnnw o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Fodd bynnag, caiff y gost o archwilio'r Datganiad Treth ei thalu gan ddefnyddio arian o Gronfa Gyfunol Cymru (drwy ein Hamcangyfrif o 2018-19 ymlaen). Yn y cyfamser mae angen gwneud rhywfaint o waith paratoi ac rydym yn bwriadu ailflaenoriaethu rhywfaint o gyllid presennol o Gronfa Gyfunol Cymru i gyllido hwn. Ar gyfer 2016-17, bydd y gwaith hwn yn cynnwys adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y paratoadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar gyfer y cyfnod pan gaiff trethi eu datganoli i Gymru o fis Ebrill 2018.

30 **Rydym yn bwriadu ailflaenoriaethu £50,000 o gyllid presennol Cronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gwaith paratoi sy'n gysylltiedig ag Awdurdod Cyllid Cymru (Paragraff 37).**

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter)

31 Ar gyfer 2015-16, cymeradwyodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol gyllid o £50,000 ar gyfer y flwyddyn gyntaf yng nghylch dwy flynedd y Fenter. Mae'r Fenter yn ymarfer cydweithredol a gynhelir ledled y DU bob dwy flynedd ac sy'n paru data electronig yng nghyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat a rhyngddynt i atal a chanfod twyll. Ers iddi ddechrau yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth dros £26 miliwn yng Nghymru (tua £1.5 miliwn y flwyddyn) ac £1.17 biliwn ledled y DU. Mae arbedion yn effeithio ar gyllid cyhoeddus. Nid ydynt, o reidrwydd, yn effeithio ar y corff sydd wedi talu i gymryd rhan yn y Fenter. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi datgan yn glir ei fod yn awyddus i fwy o gyrff yn y sector cyhoeddus gymryd rhan ac yn sgil hyn, cytunodd y Pwyllgor Cyllid y dylai gwaith y Fenter gael ei gyllido gan Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd.

32 Mae costau'n cynyddu yn ystod ail flwyddyn y cylch ac yna'n gostwng i'r lefel is y flwyddyn ganlynol. Costau casglu a dadansoddi data ac adrodd yn ôl i'r cyfranogwyr sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn. Ar gyfer 2016-17, y gost amcangyfrifedig yw £180,000, sef £100,000 ar gyfer cyfranogwyr gorfodol, £50,000 ar gyfer cyfranogwyr gwirfoddol ychwanegol a £30,000 i ddefnyddio system gwirio data.

33 Yn ôl yr adborth i'r ymgynghoriad ar ffioedd, mae cyrff a archwilir yn gwerthfawrogi'r penderfyniad i dalu ffioedd o Gronfa Gyfunol Cymru yn fawr iawn. Mae'r broses ymynghori ei hun wedi annog mwy o ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y Fenter, a chafodd y Fenter ei hyrwyddo hefyd mewn digwyddiad dysgu Ymwybyddiaeth o Dwyll a gynhaliwyd gan ein Cyfnewidfa Arfer Da.

34 **Er mwyn sicrhau y gall cyrff barhau i gymryd rhan am ddim yn y Fenter, rydym yn ceisio cynnydd o £130,000 yng nghyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2016-17, a fydd yn gostwng unwaith eto y flwyddyn ganlynol.**

## Cymhorthdal ffioedd i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

35 Ym mis Ebrill 2014, gwnaethom drafod â Llywodraeth Cymru yr effaith y gallai cynnydd sylweddol mewn ffioedd archwilio ei chael ar gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, ar ôl i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ddod yn gyfraith. Bryd hynny, gwrthododd Llywodraeth Cymru wneud unrhyw newidiadau i'w modelau cyllido ar gyfer cyrff a noddir ganddi. Er mwyn lliniaru effaith ariannol negyddol y penderfyniad hwnnw ar y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom ddyrannu £250,000 o'r cyllid a gawsom o Gronfa Gyfunol Cymru yn 2014-15 dros dro i sybsideiddio'r ffioedd a fyddai'n cael eu codi fel arall ar y cyrff hyn, ac yna gwnaethom ymestyn hyn i 2015-16 hefyd. Mae swm y cymhorthdal a ddarperir wedi gostwng i £120,000 gan effeithio ar ffioedd y cyrff canlynol:

- Cyngor Celfyddydau Cymru (gan gynnwys y Gronfa Loteri)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch
- Hybu Cig Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (gan gynnwys y Gronfa Loteri)

36 Mae'r Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru mewn sefyllfa eithriadol gan mai nhw yw'r unig gyrff a archwilir nad ydym yn codi ffioedd archwilio llawn arnynt. Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn yr effaith ariannol a gaiff colli'r cymhorthdal hwn ar y cyrff dan sylw a noddir gan Lywodraeth Cymru ond o gofio'r blaenoriaethau a'r pwysau newydd a nodwyd yn y paragraffau uchod, credwn fod angen i'r Pwyllgor Cyllid wneud penderfyniad cadarnhaol ar y mater. Yr opsiynau yw (a) parhau i sybsideiddio'r cyrff dan sylw drwy Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, neu (b) cytuno i ddod â'r cymhorthdal i ben ac annog Llywodraeth Cymru i wneud addasiadau digolledu i'w chyllid Cymorth Grant ar gyfer y cyrff a noddir ganddi. O dan y naill opsiwn neu'r llall, daw'r cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y pen draw.

37 **Mae'r Amcangyfrif hwn yn tybio y bydd gostyngiad cyllid o £250,000 o Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r penderfyniad i derfynu cymhorthdal ffioedd cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, a gaiff ei wrthbwyso gan £150,000 fel y caiff ei ailflaenoriaethu o dan baragraffau 28 a 30.**

## Defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

38 Mae Arddangosyn 7 yn nodi'r meysydd gwariant a ariennir o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na'r ffioedd a godir gennym ar gyrff a archwilir. Mae'r rhain yn gostau sydd â chysylltiad agosach â'r rôl a gyflawnir gennym ledled Cymru o ran darparu arweiniad ar faterion archwilio, pennu safonau, cyflawni polisïau'r Cynulliad a chefnogi gwaith craffu'r Cynulliad. Nid yw'n cynnwys yr £1 filiwn o bwysau cost sylweddol rydym yn eu hwynebu yn 2016-17, a gaiff ei dalu drwy arbedion effeithlonrwydd mewnol; mae ond yn cynrychioli addasiadau ar gyfer y blaenoriaethau newydd a nodir uchod, sy'n cynrychioli cynnydd cyffredinol o £422,000 mewn cyllid.

Arddangosyn 7: Defnydd amcangyfrifedig o Gronfa Gyfunol Cymru

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys astudiaethau adweithiol | 1,760 | 1,760 |
| Cymorth technegol, ymchwil a datblygu gan gynnwys cydymffurfiaeth a sicrhau ansawdd | 744 | 744 |
| Cyfnewidfa Arfer Da | 540 | 540 |
| Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol | 530 | 530 |
| Hyfforddi a datblygu staff | 500 | 500 |
| Rhaglen datblygu hyfforddeion archwilio (paragraffau 18 i 22) | 452 | 320 |
| Paratoi a threialu trefniadau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (paragraffau 12 i 17) | 422 | 122 |
| Rhoi cymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol | 420 | 420 |
| Strwythur Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 |
| Cyfrannu at gostau teithio Cymru gyfan | 300 | 300 |
| Ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill | 200 | 200 |

Arddangosyn 7: Wedi'i barhau

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|
| Trawsnewid strategol a gwybodaeth sectoraidd (paragraffau 23 i 28) | 230 | 130 |
| Gwaith paratoi ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru (paragraffau 29 i 30) | 50 | - |
| Cyllido'r Fenter Twyll Genedlaethol yn llawn (paragraffau 31 i 34) | 180 | 50 |
| Cyllid dibrisiant ar gyfer y platfform archwilio newydd a gymeradwyir yn 2015-16 (dileu cyllid un-tro o £40,000 ar gyfer 2015-16) | 50 | 90 |
| Cymhorthdal pontio ar gyfer ffioedd archwilio cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru (paragraffu 35 i 37) | – | 250 |
| **Cyfanswm y gofyniad gwariant refeniw** | **6,678** | **6,256** |

# Buddsoddi TGCh a chyfalaf

39 Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid, rydym wedi datblygu blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf tair blynedd sy’n diwallu anghenion ein strategaeth TG fewnol, fel y nodir yn Arddangosyn 8:

Arddangosyn 8: Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfalaf

| | 2015-16 £’000 | 2016-17 £’000 | 2017-18 £’000 | 2018-19 £’000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith a gynlluniwyd i adnewyddu cyfrifiaduron/TG | 50 | 50 | 50 | 50 |
| System rheoli gwybodaeth am Archwiliadau Perfformiad | – | 80 | – | – |
| Adleoli swyddfa'r gogledd | – | 50 | | – |
| Adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith | – | 40 | | 40 |
| Adnewyddu'r seilwaith fideogynadledda | – | 30 | 30 | 10 |
| System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid | – | – | 50 | – |
| System ariannol newydd | – | – | 150 | 100 |
| **CYFANSWM** | **50** | **250** | **280** | **200** |

40 Mae’r rhaglen yn cyfleu’r angen i gynyddu cyllid cyfalaf sylfaenol o’r lefel o £50,000 yn 2015-16. Mae’r blaenoriaethau buddsoddi dros y blynyddoedd nesaf yn cynnwys:

- Rhaglen dreigl o adnewyddu cyfrifiaduron/cyfarpar TG er mwyn osgoi newidiadau sylweddol i gyllid cyfalaf o flwyddyn i flwyddyn.
- Gan adeiladu ar y llwyfan archwilio newydd a gyflwynwyd ar gyfer gwaith Archwilio Ariannol, byddwn yn ceisio rheoli gwybodaeth mewn ffordd fwy effeithlon ar gyfer ein gwaith Archwilio Perfformiad.
- Rydym yn adleoli ein swyddfa yn y gogledd am fod y les wedi dod i ben ar y lleoliad presennol yn Ewlo ac felly bydd angen gwneud rhai addasiadau cyfalaf i’r safle newydd.

- O bryd i'w gilydd, mae angen i ni adnewyddu'r seilwaith rhwydwaith data sy'n gysylltiedig â'n swyddfeydd er mwyn sicrhau y gallwn barhau i'w ddefnyddio ac ymdopi â galwadau o ran cysylltedd yn y dyfodol.
- Mae ein cyfleusterau fideogynadledda wedi lleihau'r costau, yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar amser staff sy'n gysylltiedig â theithio, felly byddwn yn buddsoddi rhagor yn y cyfleusterau yn ein tair swyddfa.
- Credwn fod cael gafael yn hawdd ar wybodaeth am ein sylfaen gwsmeriaid yn gam hollbwysig yn ein hymdrechion i ddarparu gwasanaeth archwilio mwy integredig. Byddwn yn ystyried system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid fel rhan o hyn.
- Mae rheoliadau caffael yn ei gwneud yn ofynnol i dendro am gyflenwadau a gwasanaethau yn rheolaidd, a chaiff ein System Gyllid graidd ei hadolygu yn ystod blynyddoedd diwethaf y rhaglen hon.

# Y weithdrefn ffioedd

41 Nid ydym yn cynhyrchu elw o’n ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni ddylem godi mwy na chost lawn cyflawni swyddogaeth. Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gyrff a archwilir a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy’n cydnabod bod amrywiadau yn anochel.

42 Cyfrifir cyfraddau ffioedd drwy rannu cyfanswm ein costau amcangyfrifedig, heblaw am y rhai a delir gan Gronfa Gyfunol Cymru, â faint o waith archwilio a wneir yn ystod y flwyddyn. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau’r gwaith. Mae’n anochel y bydd yr union wariant, cymysgedd sgiliau a diwrnodau gwaith yn amrywio a gall y ffi a bennwyd fod yn fwy neu’n llai na’r costau gwirioneddol yr awn iddynt.

43 Yn wahanol i gwmnïau archwilio traddodiadol, ni allwn wneud elw ar un aseiniad archwilio er mwyn gwneud iawn am golledion ar un arall. Pan fyddwn yn gwneud gwarged ar aseiniad archwilio, byddwn yn ei ad-dalu i’r corff a archwilir. Os awn i gostau ychwanegol y tu hwnt i’r ffi y cytunwyd arni, byddwn yn asesu’r rhesymau ac yn penderfynu a ddylem drosglwyddo’r gost honno i’r corff a archwilir ai peidio. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn gyfreithlon i godi tâl am yr holl gostau ychwanegol, ond mewn realiti mae tensiwn yn datblygu â chyrff a archwilir pan fyddwn yn ceisio codi mwy o dâl na’r ffi a bennwyd.

44 Ers gweithio o dan y weithdrefn newydd o 1 Ebrill 2014, cyfrifwyd bod cyfanswm o £283,000 yn ad-daladwy i 21 o gyrff a archwilir a bod 15 o gyrff a archwilir yn wynebu taliadau ychwanegol posibl gwerth £194,000. Mae deg o’r cyrff a archwilir yn y ddau grŵp. Rydym yn dal i weithio ar gymhlethdodau’r senarios cyn trafod y mater ymhellach â’r cyrff dan sylw.

45 Mae’n debygol y byddai model cyllido sy’n rhoi mwy o hyblygrwydd i’r weithdrefn ffioedd, neu sy’n rhoi mwy o bwyslais ar gyllid craidd o Gronfa Gyfunol Cymru a llai ar ffioedd penodol, yn llawer mwy effeithlon a chosteffeithiol i’w weinyddu. Nid oes rhaid i fodel o’r fath amharu ar yr egwyddorion pwysig o dryloywder ac atebolrwydd. Cydnabyddwn fod Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol wedi datgan y bydd yn cynnwys y materion hyn yn ei adroddiad etifeddiaeth er mwyn caniatáu mwy o amser i’w hystyried ar ôl i Ddeddf 2013 aeddfedu rhyw dipyn.

# Cynllun Ffioedd 2016-17

46 Am y tro cyntaf, rydym wedi cynnwys yn y ddogfen Amcangyfrif hon ein Cynllun Ffioedd Drafft ar gyfer 2016-17 (Atodiad 3). Ystyriwn fod hwn yn gam pwysig o ran sicrhau mwy o dryloywder a dangos y gydberthynas rhwng cyfraddau ffioedd a'r Amcangyfrif a gymeradwywyd. Ar ôl i'r Amcangyfrif a'r Cynllun Ffioedd drafft gael eu hystyried, byddwn yn cyflwyno ein Cynllun Ffioedd ar gyfer 2016-17 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn hysbysu cyrff a archwilir o'u ffioedd amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn.

47 Unwaith eto, roeddem o'r farn ei bod yn hanfodol i ni osgoi cynyddu ein cyfraddau ffioedd. Felly, mae'r Amcangyfrif hwn yn pennu'r un cyfraddau ffioedd ar gyfer 2016-17 ag a bennwyd am y tro cyntaf o 1 Ebrill 2014 (Arddangosyn 9). Nid yw graddfeydd ffioedd, lle bo'r graddfeydd hynny'n berthnasol, wedi cynyddu ers iddynt gael eu pennu yn 2015-16.

### Arddangosyn 9: Cyfraddau ffioedd am staff archwilio

| Gradd | Cyfradd ffioedd 2016-17 (£ yr awr) | Cyfradd ffioedd ers 1 Ebrill 2014 (£ yr awr) |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr/arweinydd ymgysylltu | 162 | 162 |
| Rheolwr archwiliad | 111 | 111 |
| Arweinydd archwiliad perfformiad | 93 | 93 |
| Arweinydd tîm archwiliad ariannol | 75 | 75 |
| Archwilydd perfformiad | 65 | 65 |
| Archwilydd ariannol | 56 | 56 |
| Hyfforddeion archwilio | 43 | 45 |

48 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Medi 2015, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2016-17. Cawsom 19 o ymatebion, sy'n fwy na'r 12 a gafwyd y flwyddyn flaenorol.

49 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y canlynol:

- Mae'r cam i rewi cyfraddau ffioedd yn cael ei groesawu'n fawr, yn ogystal â'r graddfeydd ffioedd cymharol debyg a'r penderfyniad i ariannu cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Caiff yr ymdrech i wella tryloywder ei chroesawu, ond ceir anogaeth i fynd ymhellach.
- Caiff y posibilrwydd o ad-daliadau ffioedd ei groesawu ond mae'r gallu i godi costau ychwanegol yn peri pryder i gyrff a archwilir.
- Mae llawer o bryder ymhlith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd y daw eu cymhorthdal ffioedd i ben. Mae ein Hamcangyfrif yn nodi ein rhesymau dros wneud hynny.
- Mae pryderon ynghylch y newidiadau i godi ffioedd am waith archwilio mewn Cynghorau Tref a Chymuned. Rydym wedi bod yn hysbysebu'r newidiadau hyn ers cryn amser a rhaid inni ddechrau adennill costau'r gwaith a wneir mewn Cynghorau llai o faint. Yn ei adroddiad diweddar, nododd yr Archwilydd Cyffredinol er bod Cynghorau Tref a Chymuned bellach yn cyflwyno cyfrifon diwedd blwyddyn yn fwy prydlon yng Nghymru, mae lle o hyd i'r sector yn ei gyfanrwydd wella ei drefniadau rheoli a llywodraethu ariannol.
- Mae galw sylweddol am ddull archwilio symlach er mwyn helpu i leihau cyfanswm y ffioedd a godir am waith archwilio. Mae ein Hamcangyfrif yn egluro ein bod yn cydnabod bod archwilio mewn cyfnod o gyni cyllidol yn galw am ailystyried y gwaith archwilio a wnawn a'n dulliau archwilio. Rydym wedi blaenoriaethu capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol.

50 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r adborth hwn ac wedi ei ystyried wrth gwblhau'r Amcangyfrif hwn a'r Cynllun Ffioedd drafft amgaeedig.

# Rhagolwg

51 Mae'r sefyllfa sy'n wynebu Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei gwaith archwilio cyhoeddus yn un gymhleth yn y byrdymor, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- cyfyngiadau ariannol parhaus ar y sector cyhoeddus ac ymatebion iddynt, fel modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau a dulliau cyllido newydd;
- darparu gwasanaethau drwy ffyrdd digidol, mwy o fynediad ymhlith y cyhoedd i ddata sy'n gysylltiedig ag archwiliadau a mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill;
- newidiadau demograffig ar bob ochr i'r spectrwm oedran;
- rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac unrhyw effeithiau ar waith Swyddfa Archwilio Cymru;
- effaith rhagor o ddatganoli a phwerau trethu i Gymru;
- llai o waith ceisiadau am grant i Swyddfa Archwilio Cymru yn sgil penderfyniad y cyrff dyfarnu grant i symleiddio gofynion archwilio;
- y bwriad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach o 2018-19, gydag effeithiau canlyniadol ar adnoddau ar draws llywodraeth leol a Swyddfa Archwilio Cymru;
- y bwriad i ailgyflunio strwythur llywodraeth leol, gan leihau nifer yr awdurdodau unedol, sef 22 ar hyn o bryd, ac o bosibl, ailstrwythuro'r awdurdodau parciau cenedlaethol; a'r
- cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus yn cystadlu â chyflogau archwilwyr yn y sector preifat.

52 O fewn y newidiadau uchod, byddem yn disgwyl cynnydd sylweddol yn yr ohebiaeth a'r gwaith adweithiol cysylltiedig y bydd disgwyl i ni eu rheoli.

53 Rydym wrthi'n cynllunio ar gyfer pob un o'r uchod er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau archwilio o ansawdd, drwy wneud y canlynol:

- pennu targed blynyddol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd drwy ein Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – er mwyn helpu i sicrhau y caiff pob punt a wariwn yr effaith fwyaf posibl;
- adolygu ein strategaeth cynllunio'r gweithlu ac ystyried y cymysgedd o sgiliau a model y gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol - fel y gallwn ail-lunio ein gweithlu dros amser, gan gydnabod na ellir cyflawni newidiadau o'r fath dros nos;
- defnyddio ein gwybodaeth strategol er mwyn helpu i ddatblygu polisi a sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn effeithiol; a
- chreu capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol yn ein dulliau archwilio.

54 Bydd ein hamcangyfrifon blynyddol a'n hadroddiadau interim a blynyddol, a osodir gerbron y Cynulliad, yn dangos bob blwyddyn sut rydym yn wynebu'r heriau ac yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

# Gofynion cyllidebol amcangyfrifedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2017

55 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion gynnig Cynnig Cyllidebol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

56 Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2017, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau y gall Swyddfa Archwilio Cymru eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol (yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn);
- yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol, y gall eu cadw yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru; a'r
- swm y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru.

57 Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb llifau incwm, yn Nhabl 1.

Tabl 1: Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2016-17

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | <br><br><br>6,678<br>250 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio ac ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; grantiau a gafwyd i ariannu gwasanaethau archwilio; costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff wedi'u secondio; benthyciadau staff a adenillir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; unrhyw gostau yr aed iddynt ar gyfer trydydd parti a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith – i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 16,715 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 6,728 |

58 Mae Tabl 2 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2017.

Tabl 2: Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 6,928 |
| Addasiad anariannol - dibrisiant a chroniadau | (200) |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 6,728 |

# Atodiad 1
# Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru

| | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 16,183 | 14,540 |
| | Staff contractwyr | 1,213 | 1,073 |
| | Teithio a chynhaliaeth | 1,414 | 1,290 |
| | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 953 | 2,825 |
| | Swyddfeydd | 986 | 976 |
| | TGCh | 459 | 472 |
| | Balans TAW anadenilladwy | 390 | 390 |
| | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 |
| | Hyfforddiant allanol | 275 | 266 |
| | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 214 | 254 |
| | Cyfieithu dogfennau | 120 | 110 |
| | Costau eraill | 886 | 704 |
| | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **23,393** | **23,200** |
| Incwm | Ffioedd archwilio | 14,066 | 13,895 |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 1,663 | 2,063 |
| | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 986 | 986 |
| | **CYFANSWM YR INCWM** | **16,715** | **16,944** |
| **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru** | | **6,678** | **6,256** |

## Dadansoddiad o incwm o ffioedd amcangyfrifedig

| Sector | Archwilio cyfrifon £'000 | Archwilio perfformiad £'000 | Ardystio grantiau £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyrff llywodraeth leol | 5,935 | 2,541 | 1,660 | 10,136 | 10,413 |
| Cyrff llywodraeth ganolog | 1,895 | – | – | 1,895 | 1,871 |
| Cyrff y GIG | 1,955 | 1,468 | 3 | 3,426 | 3,343 |
| Incwm arall | 245 | 27 | – | 272 | 331 |
| **Cyfanswm yr incwm o ffioedd** | **10,030** | **4,036** | **1,663** | **15,729** | **15,958** |
| **Cymharydd 2015-16** | **9,919** | **3,976** | **2,063** | **15,958** | **-** |

# Atodiad 2
# Y prif weithgareddau gweithredol a ffynonellau cyllid cysylltiedig

| Gweithgaredd | Graddfa | Ffynhonnell y cyllid |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan lywodraeth ganolog a chyrff iechyd | Wyth set o gyfrifon a baratoir gan Lywodraeth Cymru; 25 o gyfrifon eraill, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad; wyth corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, saith bwrdd iechyd; a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â chymhorthdal ffioedd. |
| Archwilio cyfrifon a baratoir gan gyrff llywodraeth leol | 22 o awdurdodau unedol, pedwar comisiynydd heddlu a throseddu a phrif gwnstabl, tri awdurdod tân ac achub, tri awdurdod parc cenedlaethol, un bwrdd draenio mewnol, wyth cronfa bensiwn a thua 750 o gynghorau tref a chymuned a chyrff bach eraill. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Asesiadau gwella llywodraeth leol | Mae'n cynnwys cynnal archwiliadau blynyddol i nodi a yw awdurdodau wedi cyflawni eu dyletswyddau o ran cynllunio gwelliant a llunio adroddiadau ar berfformiad; asesiadau blynyddol o'r tebygolrwydd y byddant yn cydymffurfio â dyletswyddau gwella; asesiadau corfforaethol manwl, cylchol ac arolygiadau arbennig. Fe'u cyflawnir mewn 28 o awdurdodau gwella, (y 22 o awdurdodau unedol, tri awdurdod tân ac achub a thri awdurdod parc cenedlaethol). | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi arian grant i gefnogi gwaith asesu gwelliant. |
| Gwaith archwilio perfformiad lleol mewn cyrff iechyd | Mae'n cynnwys asesiadau o drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Fe'u cyflawnir mewn saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Ardystio hawliadau a ffurflenni grant | 32 o gynlluniau llywodraeth leol (tua 750 o geisiadau sydd werth cyfanswm o oddeutu £2.5 biliwn). | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian | Fel arfer, cynhelir tua 15 o archwiliadau, astudiaethau ac allbynnau eraill bob blwyddyn, gan edrych ar werth am arian mewn meysydd allweddol o wariant cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn aml yn cael ei wneud o safbwynt 'system gyfan' neu o safbwynt 'trawsbynciol', lle y caiff gwariant cyhoeddus ei archwilio ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. |
| Cyfnewidfa Arfer Da | Gweithio gydag eraill i rannu dysgu ac arfer da. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. |
| Gweithgareddau pwysig eraill | Mae'n cynnwys:<br>• gwirio ceisiadau i gymeradwyo hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru;<br>• ymarferion gwrth-dwyll ac ymarferion paru data eraill, gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol;<br>• ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw drwy ohebiaeth gan y cyhoedd, cynrychiolwyr etholedig ac eraill;<br>• cynorthwyo'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol; a<br>• gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | Fe'u hariennir o Gronfa Gyfunol Cymru, ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ariennir rhai gweithgareddau hefyd gan ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |

# Atodiad 3
# Cynllun Ffioedd Drafft 2016-17

## Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Ffioedd, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhoi'r sylfaen i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd.

2 Am y tro cyntaf, roedd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru (ar gyfer 2016-17), a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2015, yn cynnwys Cynllun Ffioedd drafft llawn. Mae'r drefn newydd hon yn adlewyrchu'r ffaith bod Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn benderfynol o gynyddu tryloywder ymhellach a dangos y gydberthynas uniongyrchol rhwng ein sylfaen gostau a'i heffaith ganlyniadol ar gyfraddau ffioedd.

3 Mae'r Bwrdd wedi gwrando'n astud ar adborth rhanddeiliaid ar ein hagenda cost-effeithlonrwydd a'r cyfraddau ffioedd a bennwn. Wrth geisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'n Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17, gwnaethom gynnig y canlynol yn yr Amcangyfrif:

- Rhewi cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd mewn termau arian parod am yr ail flwyddyn, a fyddai'n boblogaidd yn ôl yr adborth.
- Talu rhywfaint o'r £1 filiwn o bwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflogau staff, chwyddiant a chostau eraill drwy arbedion ac effeithlonrwydd mewnol er mwyn osgoi effeithio ar ffioedd.
- Parhau i bennu targedau o dan ein Rhaglen Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd i adeiladu ar yr arbedion a gynhyrchwyd eisoes.
- Parhau i ariannu gwaith y Fenter Twyll Genedlaethol o'r arian a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na thrwy godi ffioedd ar y cyrff sy'n cymryd rhan. Dangosodd yr adborth fod cyrff a archwilir yn croesawu'r drefn hon.
- Cynnig cyfleoedd i'n hyfforddeion cyfrifyddu fynd ar secondiad yn y sector cyhoeddus, heb effeithio ar y ffioedd a godir am waith archwilio.
- Creu capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol yn ein gwaith archwilio. Atgyfnerthodd yr adborth yr angen i ni wneud mwy o waith datblygu er mwyn helpu i gydbwyso cost gyffredinol gwaith archwilio i gyrff cyhoeddus.

4 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn adlewyrchu'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ac, yn fras, mae'n nodi'r canlynol:

- Y deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd archwilio odanynt.

- Y trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sy'n cynnwys naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi'r amrediad ffioedd a godir am feysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd am waith na chaiff ei gynnwys mewn graddfeydd ffioedd.

5 Yn gyffredinol, caiff 71 y cant o'n gwariant ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith asesu gwelliant. Darperir y 29 y cant arall yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, drwy bleidlais y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwariant a'n cyllid yn ein hamcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

## Rhestr deddfiadau

6 Mae Atodiad 2 yn rhestru'r deddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt.

## Cyfraddau a graddfeydd ffioedd

7 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir ein cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn.

8 Mae tensiwn rhwng nodi ffi am y gwaith a wneir ar archwiliadau penodol ymlaen llaw i gyrff a archwilir a chael gweithdrefn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Pennir ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar ein gwariant amcangyfrifedig, y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig a nifer amcangyfrifedig y diwrnodau sydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Os bydd y gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gododd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, yn unol â deddfwriaeth.

9 Yn amlwg, mae ein trefniadau ar gyfer codi ffioedd yn gymhleth, yn llafurus ac yn ddrud i'w gweinyddu ac mae rhai yn ystyried nad ydynt yn gwneud dim mwy na chylchredeg arian o fewn y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i ystyried trefniadau amgen mewn trafodaethau â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r Bwrdd yn croesawu camau i symleiddio gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 mewn perthynas â chodi ffioedd archwilio.

10 Aethom gam ymhellach na'r gofynion statudol i ymgynghori ar ffioedd ac, ym mis Medi 2015, gwnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar ein graddfeydd a'n cyfraddau ffioedd ar gyfer 2016-17. Cawsom 19 o ymatebion, sy'n fwy na'r 12 a gafwyd y flwyddyn flaenorol. Dangosodd yr ymatebion y canlynol:

- Mae'r cam i rewi cyfraddau ffioedd yn cael ei groesawu'n fawr, yn ogystal â'r graddfeydd ffioedd cymharol debyg a'r penderfyniad i ariannu cyfranogiad yn y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Caiff yr ymdrech i wella tryloywder ei chroesawu, ond ceir anogaeth i fynd ymhellach.
- Caiff y posibilrwydd o ad-daliadau ffioedd ei groesawu ond mae'r gallu i godi costau ychwanegol yn peri pryder i gyrff a archwilir.
- Mae pryder mawr ymhlith cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd y daw eu cymhorthdal ffioedd i ben. Mae ein Hamcangyfrif yn nodi ein rhesymau dros wneud hynny.
- Mae pryderon ynghylch y newidiadau i godi ffioedd am waith archwilio mewn Cynghorau Tref a Chymuned. Rydym wedi bod yn hysbysebu'r newidiadau hyn ers cryn amser a rhaid inni ddechrau adennill costau'r gwaith a wneir mewn Cynghorau llai o faint. Yn ei adroddiad diweddar, nododd yr Archwilydd Cyffredinol er bod Cynghorau Tref a Chymuned bellach yn cyflwyno cyfrifon diwedd blwyddyn yn fwy prydlon yng Nghymru, mae lle o hyd i'r sector yn ei gyfanrwydd wella ei drefniadau rheoli a llywodraethu ariannol.
- Mae galw sylweddol am ddull archwilio symlach er mwyn helpu i leihau cyfanswm y ffioedd a godir am waith archwilio. Mae ein Hamcangyfrif yn egluro ein bod yn cydnabod bod archwilio mewn cyfnod o gyni cyllidol yn galw am ailystyried y gwaith archwilio a wnawn a'n dulliau archwilio. Rydym wedi blaenoriaethu capasiti ar gyfer meddwl trawsnewidiol.

11 Croesawodd y Bwrdd yr adborth hwn ac mae'n ymateb iddo drwy'r Cynllun Ffioedd hwn a'n fframwaith cynllunio busnes.

12. Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r cyfraddau ffioedd fesul awr am staff archwilio sy'n adlewyrchu costau uniongyrchol a chyfran briodol o orbenion. Caiff y model costio ei archwilio gan archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

Arddangosyn 1: Cyfraddau ffioedd am staff archwilio - ar gyfer yr holl waith archwilio

| Gradd | Cyfradd ffioedd 2016-17 (£ yr awr) | Cyfradd ffioedd ers 1 Ebrill 2014 (£ yr awr) |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr/arweinydd ymgysylltu | 162 | 162 |
| Rheolwr archwiliad | 111 | 111 |
| Arweinydd archwiliad perfformiad | 93 | 93 |
| Arweinydd tîm archwiliad ariannol | 75 | 75 |
| Archwilydd perfformiad | 65 | 65 |
| Archwilydd ariannol | 56 | 56 |
| Hyfforddeion archwilio | 43 | 45 |

13 Mae'n ofynnol i ni ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y canlynol:

- gwaith sy'n ymwneud ag archwilio cyrff llywodraeth leol;
- gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; a
- gwaith paru data (y Fenter Twyll Genedlaethol).

14 Mae'r graddfeydd ffioedd am archwilio cyfrifon ariannol 2015-16 ac archwiliadau ac asesiadau gwella 2016-17 ar gael yn Atodiad 3 ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas ag awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol. Ceir graddfa ffioedd wahanol ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol.

15 Mae'r graddfeydd ffioedd yn ffordd o reoleiddio costau archwiliadau cyhoeddus, drwy bennu terfynau ac adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn rhoi fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sydd ei angen a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw o fewn y corff penodol a archwilir.

16 Yn achos cyrff a archwilir nad yw'r gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn berthnasol iddynt, caiff eu ffioedd archwilio amcangyfrifedig eu cyfrifo yn yr un ffordd - hynny yw, drwy gymhwyso'r cyfraddau a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn at y cymysgedd sgiliau amcangyfrifedig yn y tîm a'r oriau sydd eu hangen i gynnal yr archwiliad.

17 Caiff archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae lefel y gwaith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau a gaiff eu harchwilio a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd ac adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r grant dan sylw.

18 Mae'r cyfraddau ffioedd yn gymwys i'r holl waith archwilio y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn codi tâl amdano, ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle bo hynny'n gymwys, yn rheoleiddio'r swm a godir (neu yn achos gwaith a wneir dan gytundebau cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yn y telerau). Os ymddengys yn ddiweddarach i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith sydd ynghlwm wrth archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol, caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n wahanol i'r ffi a nodwyd yn wreiddiol.

19 O ran unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill a ddarperir, caiff ffioedd eu codi yn unol â'r cytundeb perthnasol, ar yr amod y caiff y cyfryw symiau eu capio yn unol â chost lawn darparu'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol, mae'n rhaid i archwilwyr o bryd i'w gilydd wneud gwaith sydd y tu hwnt i'w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwiliadau eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach sy'n ymwneud â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

20 Os bydd angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, codir tâl ar y cyrff a archwilir yn ychwanegol at gost staff Swyddfa Archwilio Cymru.

21 Pan ddarperir cyllid drwy'r Amcangyfrif, caiff Swyddfa Archwilio Cymru sybsideiddio'r ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ar sail drosiannol hyd nes y caiff y cyllid ei gymeradwyo.

## Codi ffioedd

22 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno â chyrff a archwilir ar drefniadau codi ffioedd a gallai'r rhain gynnwys ffioedd un-tro, achlysurol, rheolaidd neu flynyddol, fel y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau.

23 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu anfonebau Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'u targed perfformiad ar gyfer talu credydwyr, sef 10 diwrnod fel arfer yn y sector cyhoeddus. Gallwn godi ffi am unrhyw gostau gweinyddol yr awn iddynt wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

24 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu'r costau gwirioneddol yr aed iddynt wrth gyflawni'r aseiniad o gymharu â'r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd yn fwy na'r gost ac, i'r gwrthwyneb, gallwn godi tâl ychwanegol pan fo'r ffi yn rhy fach. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol gan geisio lleihau costau gweinyddol i'r eithaf, drwy eu gwrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio, er enghraifft.

## Atodiad 1 - Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 - testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

(a) rhestr o'r deddfiadau y caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt;

(b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

(c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;

(ch) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a

(b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

(a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr,

(b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg, ac

(c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd),

i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag is-adran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

## Atodiad 2 – Rhestr o ddeddfiadau y caiff ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi odanynt

| Natur y gwaith | Deddfiadau[2] |
|---|---|
| **Caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ar wahân i gyfrifon llywodraeth leol) | • Adran 23(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau gwerth am arian a wneir drwy gytundeb | • Adran 23(3)(a)-(c) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol drwy drefniant o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | • Adran 23(3)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwiliad eithriadol o gorff llywodraeth leol | • Adran 37(8) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Ymarferion paru data | • Adran 64F(A1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| **Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| • Gwaith o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 | • Adran 27 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer y gwaith hwn |
| • Gwasanaethau ardystio grantiau | • Adran 23(4)(a) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Astudiaethau ar gais cyrff addysgol o dan adran 145B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 | • Adran 23(4)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| • Archwilio cyfrifon corff llywodraeth leol a gwneud astudiaethau drwy gytundeb â chorff llywodraeth leol | • Adran 20(A1)(a)-(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>• Rhaid rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol |
| **Darpariaethau eraill sy'n codi ffioedd** | |
| • Astudiaethau gweinyddu budd-daliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i'r ffi fod yn swm rhesymol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arno. | • Adran 45 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| • Cynorthwyo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | • Adran 41A o Ddeddf Addysg 1997 |

2 Unwaith y caiff ei roi ar waith, bydd paragraff 32 o Atodlen 4 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diwygio adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) er mwyn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i godi ffi mewn perthynas ag archwiliadau o dan adran 15 o Ddeddf 2015. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad eto i roi paragraff 32 o Atodlen 4 i Ddeddf 2015 ar waith.

## Atodiad 3 – Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith a wneir mewn cyrff llywodraeth leol

## Awdurdodau unedol


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 100 | 119 | 140 | 161 | 140 |
| 200 | 143 | 168 | 193 | 168 |
| 300 | 159 | 187 | 215 | 187 |
| 400 | 172 | 202 | 232 | 202 |
| 500 | 182 | 214 | 246 | 215 |
| 600 | 191 | 225 | 259 | 225 |
| 700 | 199 | 234 | 270 | 235 |
| 800 | 206 | 243 | 279 | 243 |
| 900 | 213 | 251 | 288 | 251 |
| 1,000 | 219 | 258 | 296 | 258 |
| 1,100 | 225 | 264 | 304 | 265 |
| 1,200 | 230 | 271 | 311 | 271 |

### Graddfa ffioedd 2016-17 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod unedol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 94 | 112 | 130 | 112 |

**Graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau unedol**



## Awdurdodau tân ac achub


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 20 | 35 | 41 | 47 | 41 |
| 40 | 42 | 49 | 57 | 49 |
| 60 | 47 | 55 | 63 | 55 |
| 80 | 50 | 59 | 68 | 59 |
| 100 | 53 | 63 | 72 | 63 |

### Graddfa ffioedd 2016-17 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod tân ac achub | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 9 | 14 | 19 | 15 |

**Graff o'r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau tân ac achub**



## Awdurdodau parciau cenedlaethol


### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16

| Gwariant gros £000,000 | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 2 | 22 | 25 | 29 | 25 |
| 4 | 26 | 31 | 35 | 31 |
| 6 | 29 | 34 | 39 | 34 |
| 8 | 31 | 37 | 42 | 37 |
| 10 | 33 | 39 | 45 | 39 |

### Graddfa ffioedd 2016-17 ar gyfer archwiliadau gwella, asesiadau ac arolygiadau arbennig o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 5 | 7 | 9 | 7 |

**Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol**




## Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid

Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o'r ddau gorff statudol a geir mewn ardal heddlu, sef y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) a'r Prif Gwnstabliaid (PG). Mater i'r archwilwyr fydd penderfynu sut y caiff cyfanswm y ffi ei rannu rhwng y ddau gorff mewn ardal heddlu benodol, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredol a roddwyd ar waith gan bob corff.

### Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16

| Gwariant gros cyfunol CHTh a PG £000,000 | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer CHTh a PG £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| 50 | 61 | 70 | 79 | 70 |
| 100 | 71 | 82 | 94 | 83 |
| 150 | 78 | 91 | 103 | 91 |
| 200 | 84 | 98 | 111 | 98 |
| 250 | 89 | 103 | 117 | 103 |
| 300 | 93 | 108 | 123 | 108 |
| 350 | 96 | 112 | 128 | 112 |

**Graff o’r raddfa cyfanswm ffioedd ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid**



## Cynghorau tref a chymuned sydd ag incwm neu wariant blynyddol o lai na £2.5 miliwn

Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r drefn archwilio 'sicrwydd cyfyngedig'. Ar gyfer 2016-17, byddwn yn newid i godi ffioedd am waith ar sail amser yn hytrach nag ar y sail hanesyddol o godi ffi benodedig yn unol â'r band gwariant/incwm. Cyfraddau'r ffioedd fydd y cyfraddau a bennir yn Arddangosyn 1. Dangosir amcangyfrif o effaith y newid hwn yn y tabl isod.

Mewn amgylchiadau pan fo angen rhagor o dystiolaeth ar yr archwilydd er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau yn briodol, megis ar ôl cyhoeddi adroddiad perthnasol er lles y cyhoedd, bydd profion ychwanegol yn cael eu cynnal er mwyn ymateb i bryderon yr archwilydd.

Pwysleisir y bydd y ffi wirioneddol a godir ar unrhyw gorff penodol yn dibynnu ar yr amser a dreulir mewn gwirionedd ar yr archwiliad penodol hwnnw. Mae'r amrediadau yn y tabl isod wedi eu darparu at ddibenion dangosol yn unig.

**Amcangyfrif o'r ffioedd amser am archwilio cyfrifon 2015-16 cynghorau tref a chymuned**

| Incwm neu wariant blynyddol (mae'r ffioedd yn daladwy ar sail pa un bynnag yw'r mwyaf ym mhob blwyddyn) | Ffi waelodlin ddangosol | Ffi uchafswm ddangosol | Ffi'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| £Dim – £99 | £Dim | £Dim | £Dim |
| £100 – £5,000 | £30 | £280 | £30 – £80 |
| £5,001 – £100,000 | £160 | £320 | £175 – £350 |
| £100,001 – £500,000 | £200 | £380 | £415 – £650 |
| £500,001 – £2,500,000 | £240 | £460 | £920 |

## Cronfeydd pensiwn llywodraeth leol

**Graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2015-16**

| Pob cronfa bensiwn | Amrediad ffioedd £000 | | | Canolrif y flwyddyn flaenorol £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Isafswm | Canolrif | Uchafswm | |
| | 30 | 40 | 50 | 40 |

## Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

### Archwilio mathau eraill o gyrff llywodraeth leol, gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, a gwaith ardystio grantiau

Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y mae graddfeydd ffioedd wedi eu rhagnodi ar eu cyfer, mae nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol. Ar gyfer y cyrff hyn, byddwn eto'n cynllunio archwiliadau yn y dull 'ar sail sero', ac yn trosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd, naill ai'n uniongyrchol ar sail y gost o gyflawni'r gwaith neu drwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a bennir yn Arddangosyn 1.

Er mwyn i gyrff llywodraeth o bob math fodloni eu cyfrifoldebau statudol, mae angen weithiau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau cyffredinol (sef y rhai a bennir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). Gall y gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er lles y cyhoedd, archwiliad eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach mewn cysylltiad â her etholwr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd ffioedd am y mathau hyn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith a fydd yn ofynnol.

Gall archwilwyr ymgymryd hefyd â gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae maint y gwaith ardystio grantiau a ymgymerir yn ystod unrhyw flwyddyn yn dibynnu ar nifer y cynlluniau sy'n ddarostyngedig i'w harchwilio a nifer y cyrff a archwilir a fydd yn cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir ffioedd am y gwaith hwn ar y sail fesul awr, a bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint a chymhlethdod y gwaith ac unrhyw faterion penodol ynglŷn â'r grant dan sylw.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn y gobaith y gallwn gytuno ar fodel a fydd yn canolbwyntio mwy ar allbynnau a chanlyniadau gweithgarwch a ariennir gan grantiau, gan ymbellhau wrth y dull traddodiadol o archwilio anfonebau. Dylai hyn roi dealltwriaeth gliriach i Lywodraeth Cymru a chyrff a archwilir o'r gwahaniaeth y mae gweithgarwch a ariennir gan grantiau yn ei wneud, yn ogystal â lleihau cost gwaith ardystio grantiau. Disgwyliwn gael cyfle i beilota'r dull hwn yn ystod 2016-17, a byddwn yn trafod y goblygiadau i ffioedd gyda'r awdurdodau peilot.

Dangosir isod amcangyfrifon o gyfrannau cymharol y graddau staff archwilio ariannol a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o waith grantiau.

| Graddau staff | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr archwiliad | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd tîm | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Aelod tîm/hyfforddai | 77 i 71 | 87 i 81 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a threth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

## Graddfeydd ffioedd ar gyfer gwaith o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

Er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymladd twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal yr MTG yng Nghymru ar sail eilflwydd Caiff y Fenter ei chynnal yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i unrhyw hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Bu'n arf effeithiol iawn ar gyfer darganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi gychwyn yn 1996, mae ymarferion y Fenter wedi canfod ac atal twyll a gordaliadau gwerth £26 miliwn yng Nghymru, ac £1.17 biliwn ledled y DU.

Cynhelir y Fenter gan yr Archwilydd Cyffredinol drwy arfer ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ar gyfer 2015-16, cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol gynllun ffioedd a oedd yn cynnwys graddfa ffioedd o £dim ar gyfer pob corff sy'n cymryd rhan. Cyllidir y gwaith yn hytrach gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda thaliad o Gronfa Gyfunol Cymru a gymeradwywyd drwy'r Amcangyfrif. Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i annog rhagor o gyrff i gymryd rhan, nad ydynt o dan orfodaeth i gyfranogi. Ar yr un pryd, yn unol â dyhead y Bwrdd am system gyllido symlach, pennir graddfa ffioedd o £dim

ar gyfer y cyfranogwyr sydd o dan orfodaeth hefyd. Bydd hyn yn osgoi dryswch ac yn cyfleu neges eglur ynglŷn â'r gost o gymryd rhan yn y Fenter. Mae holl waith y Fenter, felly, yn waith nas cyllidir drwy godi ffioedd. Ond fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyfranogwyr gorfodol isod.

Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol

| Math o gorff | Ffi 2016-17 £ | Ffi flaenorol 2014-15 £ |
|---|---|---|
| Awdurdod unedol | Dim | 3,650 |
| Comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid | Dim | 1,000 |
| Awdurdod tân ac achub | Dim | 1,000 |
| Ymddiriedolaeth y GIG | Dim | 1,000 |
| Bwrdd iechyd lleol | Dim | 1,000 |
| Arall - gwirfoddol | Dim | Darostyngedig i gytundeb gyda phob corff yn unigol |

Bydd cyfranogwyr gorfodol yn cael mynediad yn ddi-dâl hefyd i Wiriwr Ceisiadau'r Fenter.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru